TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

5 Mawrth 2024

Annwyl Llyr,

**Adroddiad dilynol ar ôl i TrC ymddangos gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

Diolch am eich gwahoddiad i annerch y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 22 Tachwedd 2023. Yn ystod y sesiwn, addewais gymryd nifer o gamau dilynol a nodi'r wybodaeth yn ysgrifenedig. Rwyf bellach wedi casglu'r pwyntiau hynny at ei gilydd isod:

1. **Yr wybodaeth strategol ddiweddaraf am gynlluniau TrC ar gyfer gemau pêl-droed, gan gynnwys cyfarfod diweddaraf TrC gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru.**

Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i drafod a rhannu manylion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Cefais i ac aelodau o'm uwch dîm gyfarfod â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ar 9 Ionawr i drafod strategaeth cynllunio a digwyddiadau TrC ar gyfer gemau pêl-droed yng Nghymru; byddwn yn parhau i weithio i feithrin y berthynas allweddol hon dros y flwyddyn nesaf drwy gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd.

Rhoddodd ein tîm Digwyddiadau Arbennig gyflwyniad i'r Gymdeithas Cefnogwyr Pêl-droed ar 15 Chwefror yn Stadiwm Dinas Caerdydd, ynghylch y cynlluniau gweithredol a'r cynlluniau i gwsmeriaid sydd ar y gweill. Roedd hyn hefyd yn cynnwys archwiliad manwl o'r gwersi a ddysgwyd o'r gemau blaenorol. Cafodd hyn ei groesawu ac mae'r tîm wedi ymrwymo i fynd yno eto ar ôl digwyddiadau rhagbrofol pencampwriaeth Ewro ar 21 a 26 Mawrth. Bydd y cydweithio rhwng y Tîm Digwyddiadau Arbennig a Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn parhau, gyda chyfarfodydd rheolaidd bellach wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn. Mae cynlluniau cyflawni gweithredol ac ar gyfer cwsmeriaid ar gyfer digwyddiadau Rhagbrofol Pencampwriaeth Ewro ar 21 a 26 Mawrth yn mynd rhagddynt yn dda, gyda'r holl wasanaethau ychwanegol a chryfach bellach yn cael eu dangos mewn systemau cynllunio. Bydd negeseuon y cytunwyd arnynt yn cael eu rhannu ddechrau mis Mawrth, tra bod cynllun cymorth/digwyddiadau cadarn ar waith i gwsmeriaid ar gyfer y ddwy gêm, gyda chynlluniau wrth gefn ar gyfer gwasanaethau allweddol. Bydd gennym bresenoldeb rheoli amlwg ar waith ar lawr gwlad i ganolbwyntio ar ymgysylltu â chwsmeriaid a sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl ar y diwrnod.

2. **Cadarnhau'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gwasanaethau Rheilffyrdd TrC a'r rhai nad ydynt yn wasanaethau Rheilffyrdd, ac amlinellu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau cydraddoldeb.**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau nad yw'n gysylltiedig â Rheilffyrdd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yw 14.1%. Mae hyn wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers 2020, gyda'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng o 32.8% yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 - i lawr o 33.2% yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

Mae'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer y Rheilffyrdd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn 16.2%. Mae hyn hefyd yn gostwng o un flwyddyn i'r llall, ar ôl gostwng o 19.2% yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, ac o 21.2% yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21.

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n drafftio ein Hadroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2023, a fydd yn adrodd ar y ddau endid fel un. Nid yw ein ffigur cyfun ar gyfer y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cael ei gyfrifo eto.

O ran ein gwaith tuag at gyflawni cydraddoldeb:

- Fe wnaethom lansio ein Grwpiau Adnoddau Gweithwyr yn ystod Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant 2022. Mae grŵp sy'n canolbwyntio ar rywedd yn unig ymhlith y grwpiau sydd wedi cael eu creu. Mae ein Grwpiau Adnoddau Gweithwyr yn ein helpu i adeiladu amgylchedd mwy cynhwysol yn y gweithle a mynd i'r afael ag amrywiaeth a chynhwysiant mewn ffordd fwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae ein Grwpiau Adnoddau Gweithwyr yn lle diogel i staff sy'n rhannu diddordebau, problemau neu bryderon cyffredin er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hynny. Bydd y Grwpiau Adnoddau Gweithwyr yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a digwyddiadau mewnol sy'n berthnasol i'w meysydd pwnc, a hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 'o dan arweiniad gweithwyr'.

- Ar y cyd â Llywodraeth Cymru a PTI Cymru, cytunwyd ar gyllid ar gyfer Hwb Menywod mewn Trafnidiaeth yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Hwb yn darparu cefnogaeth a datblygiad proffesiynol i fenywod sydd eisoes yn gweithio ym maes trafnidiaeth ac i'r rheini sy'n ystyried gyrfa yn y sector.

- Er bod y pandemig wedi bod yn gyfnod heriol, rhoddodd y cyfle i ni fod yn fwy hyblyg ac i integreiddio ffyrdd hybrid o weithio ar gyfer ein swyddogaethau cymorth a chydweithwyr sy'n gweithio mewn rhai meysydd eraill. Mae'r dull hwn yn helpu i ddenu a chadw pobl dalentog sydd wedi ymrwymo i'n pwrpas ac rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd hyblyg o weithio.

**3. Amlinellu'r ddarpariaeth o hyfforddiant a chefnogaeth rheoli gwrthdaro i staff rheng flaen sy'n delio â chwsmeriaid ymosodol.**

Yn 2024, bydd y tîm Diogelwch a Chadernid yn cynnal adolygiad llawn o bolisi osgoi gwrthdaro TrC a'r mesurau lliniaru ategol sydd ar waith ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r polisi presennol a'r gweithdrefnau cysylltiedig, a bydd gweithdai'n cael eu cynnal i gydweithwyr rheng flaen i sicrhau ein bod yn deall eu safbwyntiau a'u pryderon yn llawn. Cynhelir y gweithdy cyntaf ar 19 Mawrth. Byddwn hefyd yn adolygu ein dangosfwrdd a'n proses adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch, er mwyn i ni allu dadansoddi'n well lle mae

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

problemau'n codi ar draws y rhwydwaith a chymryd camau pan fydd angen ymyrryd gyda thueddiadau cynyddol.

Byddwn hefyd yn dechrau defnyddio teledu cylch cyfyng dros dro/symudol i atal a chofnodi digwyddiadau nad ydynt yn cael eu canfod ar hyn o bryd. Yn olaf, bydd hyfforddiant osgoi gwrthdaro ar gael i bob tîm rheng flaen.

**4. Yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau i Faesteg, Cheltenham a Glynebwy.**

Maesteg

Cafodd ein trenau Class 197 newydd sbon eu cyflwyno i'r rheilffordd rhwng Maesteg a Cheltenham ar 19 Chwefror. Mae gan y trenau newydd hyn, sydd wedi'u hadeiladu yma yng Nghymru, nifer o nodweddion modern a hygyrch i wella profiad cwsmeriaid yn sylweddol. Mae'r trenau Class 197 yn cynnwys mwy o le, seddi cyfforddus, toiledau a mannau hygyrch, sgriniau gwybodaeth gweledol dwyieithog, seddi â blaenoriaeth, Wi-Fi, socedi gwefru a mannau i feiciau. Byddant hefyd yn llawer mwy dibynadwy na'r trenau Class 150 hŷn sydd wedi bod yn rhedeg ar hyd y rheilffordd, gan olygu y bydd tarfu'n llai tebygol; er y bydd y trenau Class 150 yn dal i weithredu rhai gwasanaethau wrth i ni barhau i gyflwyno ein trenau Class 197 yn ystod y cyfnod pontio parhaus o'r hen drenau i'r rhai newydd. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Network Rail a phartneriaid rheilffyrdd eraill i sicrhau mwy o gadernid o ran gwasanaethau sy'n gweithredu rhwng blwch signalau Ton-du a Maesteg.

Cheltenham

Mae TrC, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn adolygu ei amserlenni presennol a'r newidiadau sydd ar y gweill ar gyfer amserlenni yn y dyfodol er mwyn cydnabod y newidiadau sylweddol i batrymau teithio ar ôl y pandemig a sicrhau bod ein hamserlenni'n diwallu gofynion cwsmeriaid yn y ffordd orau. Mae pob newid i'r amserlen o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

Fel y nodwyd uchod, rydym bellach wedi cyflwyno trenau Class 197 ar reilffordd Maesteg, sy'n gweithredu cyn belled â Cheltenham. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos gyda CAF, sy'n adeiladu'r trenau Class 197, i ddeall pryd y bydd y trenau sy'n weddill yn cael eu danfon a phryd y bydd y fflyd yn ddigon mawr i gefnogi'r gwasanaethau ychwanegol hyn.

Glynebwy

Rwyf hefyd yn falch o gadarnhau bod gwasanaethau trên rheolaidd rhwng Glynebwy a Chasnewydd wedi cael eu cyflwyno am y tro cyntaf mewn dros 60 o flynyddoedd ar 1 Chwefror, diolch i fuddsoddiad o £70m gan Lywodraeth Cymru a chydweithio agos rhwng TrC, Network Rail a chyngor Blaenau Gwent. Roedd y gwaith yn cynnwys ymestyn dolen basio rhwng Crosskeys ac Aberbîg, uwchraddio signalau, a gosod platfformau a lifftiau newydd yng ngorsafoedd Trecelyn a Llanhilleth. O ganlyniad i'r buddsoddiad sylweddol hwn, mae pa mor aml mae trenau'n teithio ar hyd rheilffordd Glynebwy wedi dyblu, sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r holl gymunedau ar hyd y llwybr. Byddwn hefyd yn cyflwyno trenau newydd i'r rheilffordd yn ystod gwanwyn 2024.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

5. **Amlinellu'r heriau gwahanol sy'n codi o ganlyniad i amodau yn ystod yr haf ac yn ystod y gaeaf o ran canslo gwasanaethau rheilffyrdd a darparu gwasanaethau bws yn lle trenau.**

Gall tywydd eithafol dros yr haf ac yn ystod y gaeaf effeithio ar wasanaethau rheilffyrdd am nifer o resymau. Mae'n bosibl y bydd y cledrau dur yn amsugno gormod o wres mewn tymheredd uchel, a allai olygu bod y cledrau'n ehangu neu hyd yn oed yn plygu.

Mae cledrau rheilffordd yn cael eu gosod ar dymheredd niwtral o 27c, ac mae cyfres o fesurau lliniaru ar waith i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ac i sicrhau bod y rheilffordd yn gweithredu'n ddiogel pan gyrhaeddir y tymheredd hwn neu uwch. Pan fydd y tymheredd yn fwy na 27c, bydd gwyliwr penodol yn cael ei roi ar y safle i fonitro symudiad ochrol y rheilffordd a gosod cyfyngiadau cyflymder os oes angen (neu i roi'r llinell ar stop mewn achosion eithafol).

Er mwyn atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf, mae traciau'n cael eu peintio'n wyn mewn ardaloedd lle mae'r rheilffyrdd yn dueddol o brofi tymheredd uchel. Hefyd, rydym wedi gosod gorsafoedd tywydd ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd i fonitro tymheredd yr aer ac mae gennym bellach werth 12 mis o ddata i ddangos tueddiadau.

Er ein bod yn gweithio i ddod o hyd i drafnidiaeth ffyrdd amgen pan fydd gwres eithafol yn tarfu ar wasanaethau neu'n golygu bod gwasanaethau'n cael eu canslo, mae'n bwysig nodi y gall heriau penodol yn ystod yr haf effeithio ar hyn hefyd. Gall cwmnïau bysiau yn trefnu teithiau haf effeithio ar nifer y bysiau sydd ar gael i ddarparu trafnidiaeth ffyrdd amgen i deithwyr rheilffyrdd, yn ogystal â mwy o alw am deithio yn ôl ac ymlaen o gyrchfannau gwyliau poblogaidd.

Ar ben hynny, rhaid ystyried nifer y gyrwyr bysiau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwn hefyd yn ystod gwyliau'r haf gan fod llawer yn cymryd gwyliau blynyddol yn ystod y cyfnod hwn.

Yn olaf, gall cynnydd mewn traffig ffyrdd yn ôl ac ymlaen o gyrchfannau gwyliau poblogaidd yn ystod yr haf olygu bod gwasanaeth bws yn lle trenau yn araf, gan achosi oedi, a gall gwres eithafol effeithio ar ddibynadwyedd cerbydau hefyd.

Gall tywydd eithafol yn ystod y gaeaf, fel glaw trwm a llifogydd, eira a rhew, hefyd effeithio ar sut mae'r rheilffordd yn rhedeg. Gall llifogydd achosi difrod i'r cyfarpar signalau trydanol, ac mae cyfyngiadau cyflymder yn aml yn cael eu gosod ar drenau sy'n teithio ar hyd llwybrau sydd wedi cael llifogydd, gan achosi oedi ar gyfer gwasanaethau. Gall eira a rhew gael effaith niweidiol ar y cledrau, ac ni all trenau redeg mewn eira dwfn. Mae tywydd eithafol y gaeaf hefyd yn cael effaith niweidiol ar ddibynadwyedd trenau, sy'n golygu bod angen mwy o waith cynnal a chadw ac atgyweirio arnynt.

Er mwyn lliniaru yn erbyn hyn, mae cynlluniau rheoli ar gyfer y gaeaf yn cael eu rhoi ar waith bob blwyddyn ar gyfer ein fflyd ac mae ein trenau'n cael eu paratoi ar gyfer tywydd oer yn unol â chyfarwyddiadau cynnal a chadw cerbydau. Mae deunyddiau ychwanegol a darnau sbâr o drenau yn cael eu cadw mewn storfeydd mewn lleoliadau allweddol, ac rydym yn

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

sicrhau bod yr holl staff gweithredol yn gyfarwydd â gofynion y llyfr rheolau yn ystod tywydd oer.

Er ein bod yn gweithio i ddod o hyd i drafnidiaeth ffyrdd amgen i deithwyr pan fydd tywydd eithafol y gaeaf yn tarfu ar wasanaethau neu'n golygu bod gwasanaethau'n cael eu canslo, mae'n bwysig nodi y gall heriau penodol yn ystod y gaeaf effeithio ar hyn hefyd. Gall tywydd eithafol y gaeaf effeithio ar gyflwr ffyrdd, hygyrchedd gorsafoedd, cyflymder gwasanaeth bws yn lle trenau a gallu gweithredwyr i ddefnyddio bysiau ar gyfer pob cornel o rwydwaith TrC. Gall oerni eithafol y gaeaf hefyd effeithio ar ddibynadwyedd cerbydau.

**6. Amlinellu'r cyfyngiadau pŵer y deuir ar eu traws ar gyfer trydaneiddio rheilffordd Rhymni.**

Roedd y dyluniadau cychwynnol ar gyfer trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn Rhymni yn cynnwys cysylltiad â'r National Grid yn ardal Rhymni i ddarparu'r pŵer sydd ei angen i wefru batris y trenau tri-modd (yn ystod y cyfnod yng Ngorsaf Rhymni fel rhan o'r gwasanaeth sydd wedi'i amserlennu, yn ogystal â dros nos wrth aros yn Seidins Rhymni).

Drwy ddatblygu dyluniad y System Rheilffyrdd, buom yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi a Western Power i fireinio manylion y llwyth trydanol y byddai gwaith pweru'r trenau tri-modd yn eu cael ar y rhwydwaith trydan lleol. Daeth y gwaith o ddatblygu'r dyluniad i'r casgliad y byddai'r llwyth "mewnlif" cychwynnol o'r cysylltiad rhwng y trenau a'r cyflenwad pŵer, yn ogystal â'r llwyth nam potensial pe bai problemau'n codi, yn llethu'r rhwydwaith grid lleol.

Er mwyn darparu digon o bŵer, sy'n hanfodol ar gyfer gweithredu'r trenau tri-modd yn yr ardal, roedd Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd wedi ystyried nifer o opsiynau, gan gynnwys uwchraddio'r rhwydwaith grid presennol, gosod cyflenwad adnewyddadwy pwrpasol (solar), darparu cysylltiad cebl i'r rhwydwaith pŵer rheilffyrdd arfaethedig, ac ymestyn llinell uwchben y rheilffordd i ddarparu llwybr ar gyfer y pŵer o'r rhwydwaith pŵer rheilffyrdd arfaethedig.

O safbwynt cadernid masnachol, gweithredol a'r rhaglen, cafodd ymestyn y llinell uwchben y rheilffordd ei ddewis i ddarparu'r pŵer angenrheidiol i ardal Rhymni. Yn ogystal â bod yr ateb rhataf, mae ymestyn y llinell uwchben yn gwella cadernid gweithredol drwy ganiatáu i'r trên redeg ar gyflenwad trydan (yn hytrach na batri) rhwng Bargoed a Rhymni.

**7. Yr wybodaeth ddiweddaraf am drydaneiddio rheilffordd Gogledd Cymru, gan gynnwys y cyfathrebu diweddaraf gan Lywodraeth y DU/Network Rail ac amlinelliad o unrhyw amserlenni.**

Ar hyn o bryd, mae cost bosibl trydaneiddio llinell Gogledd Cymru, yn ogystal â'r pecyn cyllid ac unrhyw ofynion TrC, yn dal yn anhysbys. Mae angen rhagor o gydweithio â Network Rail, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill er mwyn llwyr ddeall dichonoldeb a chost lawn y gwaith hwn.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Cysylltodd Network Rail â TrC fel rhanddeiliad allweddol ac yna datblygodd bapur yn amlinellu'r syniadau a'r argymhellion cychwynnol. Mae'r papur a ddeilliodd o hyn yn adeiladu ar y gwaith datblygu helaeth ar Fetro Gogledd Cymru y bu TrC yn arwain arno dros y blynyddoedd diwethaf, ond gyda chwmpas ychwanegol trydaneiddio a gwella amser teithio o ganlyniad i hynny. Mae'n bwysig nodi mai dim ond fel ymgynghorai y mae TrC wedi gwasanaethu yn y broses hon hyd yma.

Mewn papur briffio i randdeiliaid a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, dywedodd Network Rail y bydd Adran Drafnidiaeth y DU yn ystyried yr argymhellion hyn wrth drafod trefniadau cyllido ac unrhyw amodau/targedau a fydd yn cyd-fynd â hi. Mae'n debygol y bydd yr Adran Drafnidiaeth yn cysylltu â Network Rail yn y flwyddyn ariannol newydd (2024/25) i ystyried y camau nesaf ar gyfer gwaith datblygu a chyflawni (os bydd trafodaethau'n mynd rhagddynt yn gadarnhaol).

Hyderaf y bydd cynnwys yr adroddiad dilynol hwn yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth i'r pwyllgor, a chroesawaf unrhyw gwestiynau ychwanegol sydd gennych. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

James Price
Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

05 Mawrth 2024

Annwyl Llyr,

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a'r pwyllgor am y cynlluniau y mae Trafnidiaeth Cymru wedi'u datblygu ar gyfer gêm bêl-droed ragbrofol Ewro 2024 rhwng Cymru a'r Ffindir yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 21 Mawrth, cyn wynebu naill ai Gwlad Pwyl neu Estonia ddydd Mawrth 26 Mawrth, a allai fod yn gêm derfynol ail-gyfle neu'n gêm ryngwladol gyfeillgar yn dibynnu ar y canlyniad yn erbyn y Ffindir. Rydym ni yn Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig rydym yn ei chwarae o ran cefnogi llwyddiant y digwyddiadau hyn ac rydym yn croesawu eich her o sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gefnogwyr o bob cwr o Gymru.

Rwy'n cydnabod bod TrC wedi wynebu heriau gweithredol yn y gorffennol wrth ddarparu gwasanaethau ar ddiwrnodau gemau pêl-droed rhyngwladol – yn enwedig i gefnogwyr sy'n teithio rhwng Gogledd a De Cymru. Rydym wedi clywed y pryderon a fynegwyd gan gefnogwyr ac rydym am wella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig a meithrin ymddiriedaeth a hyder y cefnogwyr hynny sy'n teithio i'r gemau. Hoffwn eich sicrhau chi a'r pwyllgor fy mod i, yn bersonol, wedi cwrdd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ddechrau mis Ionawr 2024, i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o gemau blaenorol yn cael eu rhoi ar waith cyn y gemau sydd ar y gweill. Roeddwn yn ddiolchgar am yr adborth gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a'r ffordd gefnogol maent wedi mynd ati i hwyluso sgyrsiau rhyngom ni a chynrychiolwyr cefnogwyr pêl-droed Cymru. Rhoddodd tîm digwyddiadau arbennig TrC gyflwyniad a gwybodaeth i Gymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Gymdeithas Cefnogwyr Pêl-droed yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 15 Chwefror, gan amlinellu'r trefniadau sydd ar y gweill ar gyfer y ddwy gêm. Cytunwyd y byddem yn mynychu sesiynau dilynol gyda'r Gymdeithas Cefnogwyr Pêl-droed, a chytunwyd hefyd ar gyfarfodydd sydd wedi'u trefnu ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Ar y dudalen ganlynol, rwyf wedi crynhoi'r cynlluniau sydd gennym ar waith nawr ar gyfer y gemau sydd i ddod. Mae'r manylion eisoes mewn systemau cynllunio teithiau ac rydym yn disgwyl cyhoeddi'r manylion llawn i'r cyhoedd cyn bo hir.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
tfw.wales

**Trosolwg o'r gwasanaeth**
Mae'r gwaith o gryfhau gwasanaethau rheilffyrdd allweddol rhwng y Gogledd a'r De wedi'i drefnu ar gyfer y canlynol:

**I mewn**

- 10:40 yn gadael Caergybi – yn cyrraedd Caerdydd Canolog am 15:10
- 12:30 yn gadael Manceinion Piccadilly – yn cyrraedd Caerdydd Canolog am 15:42

**Allan**

- 22:47 yn gadael Caerdydd Canolog – yn cyrraedd Wrecsam am 01:32, Caer am 01:48 a Crewe am 02:14*
- 23:39 yn gadael Caergybi – yn cyrraedd Henffordd am 00:42

*Bydd y gwasanaeth sy'n gadael yn hwyr yn rhoi amser i gwsmeriaid deithio o'r stadiwm os bydd unrhyw amser ychwanegol/ciciau o'r smotyn yn y gêm.

Er mwyn cefnogi'r uchod, rydym wedi cryfhau'r gwasanaeth cyntaf sy'n mynd i'r gogledd y diwrnod canlynol (22ain Mawrth) a fydd yn cyd-daro ag amseroedd gadael gwestai. Dyma'r gwasanaeth 11:25 o orsaf Caerdydd Canolog, sy'n cyrraedd Caergybi am 16:15.

Rydym wedi ystyried y dyhead i redeg gwasanaeth hyd at Gaergybi ar ôl y gêm, ond byddai hyn yn arbennig o heriol oherwydd gwaith peirianyddol sydd wedi'i drefnu, yr angen am staff blychau signalau estynedig a chriwiau trenau ychwanegol. Bu'r tîm yn ymchwilio i'r opsiwn, ond roedd yn amlwg pe byddem yn gweithredu hyn, na fyddai ein cwsmeriaid yn cyrraedd tan tua 05:00 y diwrnod canlynol. Rydym hefyd wedi trefnu i gryfhau gwasanaethau ar y llwybrau allweddol canlynol:

- Caerdydd Canolog i Barc Ninian, Parc Ninian i Gaerdydd Canolog – cyn ac ar ôl y gêm
- Caerdydd Canolog i Gasnewydd – ar ôl y gêm
- Caerdydd Canolog i Henffordd – ar ôl y gêm
- Treherbert i Gaerdydd Canolog (ac yn ôl) – ar ôl y gêm
- Rhymni i Gaerdydd Canolog (ac yn ôl) – cyn ac ar ôl y gêm
- Merthyr i Gaerdydd Canolog (ac yn ôl) – ar ôl y gêm
- Aberdâr i Gaerdydd Canolog (ac yn ôl) – ar ôl y gêm

Y gwasanaethau olaf i'r gorllewin yw'r gwasanaeth 23:15 sy'n gadael Caerdydd Canolog, gan gyrraedd Caerfyrddin am 01:42, a'r gwasanaeth 23:59 sy'n gadael Caerdydd Canolog, gan gyrraedd Abertawe am 00:52.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
tfw.wales

**Gwaith peirianyddol**

Er mwyn cyflawni'r cynlluniau uchod, rydym wedi gofyn am ddiwygio gwaith peirianneg min nos ganol yr wythnos – mae hyn yn caniatáu i wasanaethau arferol a gwasanaethau ychwanegol weithredu yn unol â chynllun y digwyddiad. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn Amey Infrastructure Wales a Network Rail i hwyluso'r ceisiadau hyn er mwyn caniatáu i'r llwybrau canlynol weithredu fel arfer:

21 Mawrth 2024

- Rheilffordd Treherbert
- Rheilffordd Rhymni
- Rheilffordd/Rheilffyrdd Merthyr Tudful/Aberdâr – Radur
- Dau lwybr yng ngorsaf Casnewydd
- Llwybr gwarchodedig rhwng Parc Ninian a Chaer i atal unrhyw waith peirianyddol ychwanegol.

26 Mawrth 2024

- Rheilffordd Treherbert
- Rheilffordd Glynebwy
- Rheilffordd Rhymni
- Llwybrau gwarchodedig rhwng Caerdydd Canolog – Ynys y Barri/Abertawe/Caer i atal unrhyw waith peirianyddol ychwanegol.

Roedd awydd i redeg gwasanaethau ymhellach i'r gorllewin ar gyfer y gemau hyn, ond oherwydd blocâd peirianneg o 10 diwrnod rhwng Hendy-gwyn ar Daf a Doc Penfro, ac er ein bod wedi gofyn am gwtogi gyda Network Rail, nid oeddem wedi gallu bwrw ymlaen â hyn ymhellach. Byddai wedi ychwanegu 2 ddiwrnod ychwanegol o waith peirianyddol at yr amserlen bresennol.

**Darpariaeth bysiau wrth gefn**

Bydd darpariaeth bysiau a bysiau moethus wrth gefn ar gael mewn lleoliadau allweddol ar hyd rheilffordd y Gororau ac yng ngorsaf Caerdydd Canolog, os yw nifer y cwsmeriaid yn uwch na'r disgwyl.

**Cyflawni ar gyfer cwsmeriaid**

Byddwn yn gweithio'n agos gyda staff yr orsaf, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a'n cydweithwyr diogelwch i fonitro pob gwasanaeth. Bydd gennym reolwr digwyddiadau ar ddau o'r gwasanaethau allweddol yn ôl ac ymlaen i Ogledd Cymru (y gwasanaeth 10.40 o Gaergybi a'r gwasanaeth 11.25 i Gaergybi) a fydd yn mynd gyda chefnogwyr ac yn rhoi cyngor i deithwyr drwy gydol eu taith.



Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
tfw.wales


Ar ben hynny, bydd gennym gynllun rheoli torfeydd ar waith yng ngorsaf Caerdydd Canolog ac ym Mharc Ninian, lle bydd cydweithwyr wrth law i helpu cwsmeriaid, yn ogystal â monitro nifer y teithwyr cyn ac ar ôl y gêm.

Hoffwn sicrhau'r pwyllgor bod cynlluniau cadarn a chynlluniau wrth gefn wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu'r gwasanaethau allweddol rydym yn disgwyl i gefnogwyr fod yn eu defnyddio. Mae gan gydweithwyr yn nhîm digwyddiadau arbennig TrC reolwyr cynllunio a chyflawni pwrpasol, ac mae ein gwaith ar y cyd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, ac ar ddigwyddiadau chwaraeon mawr eraill ar draws y rhwydwaith yn ddiweddar, wedi arwain at hyder yn ein sefyllfa i ddarparu ar gyfer y gemau hyn sydd ar y gweill.

Byddwn yn annog cefnogwyr sy'n teithio i barhau i chwilio am yr wybodaeth ddiweddaraf am deithio cyn cychwyn, a thrwy gydol y dydd, ar ein gwefan, ein gwiriwr teithiau a'n sianeli cymdeithasol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Gobeithio bod yr uchod yn ddefnyddiol. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi. Byddai fy swyddfa'n fodlon trefnu sesiwn friffio dechnegol cyn y gêm os ydych chi'n dymuno.

Cofion cynnes,



James Price
Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru.